

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Uchafbwyntiau Ymchwil

2017/18



Manylion Cyswllt

Ymchwil a Datblygu

Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol
Iechyd Cyhoeddus Cymru
2 Capital Quarter
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 02920 104452

Ebost: PHW.Research@wales.nhs.uk

 [@IechydCyhoeddus](https://twitter.com/IechydCyhoeddus) / [@PHRWales](https://twitter.com/PHRWales)

 [Iechyd Cyhoeddus Cymru](https://www.facebook.com/IechydCyhoeddusCymru)

Gwefannau:

www.ymchwiliachydycyhoeddycymru.co.uk

www.publichealthwales.org/PRID

Ymholiadau'r Cyfryngau

Dylai newyddiadurwyr sy'n dymuno cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ffonio 029 2034 8755 (24 awr). Mae swyddog cyfathrebu ar alwad drwy'r amser.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

© 2018 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd a geir yn y ddogfen hon yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyhyd ag y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 987-1-78986-004-7

Dyluniad: Jenney Creative www.jenneycreative.co.uk


Uchafbwyntiau Ymchwil

Gan edrych ymlaen at 2030, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi saith blaenoriaeth allweddol ar gyfer iechyd y boblogaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu nodi trwy wrando ar safbwyntiau pobl yng Nghymru (Cadw'n lach yng Nghymru gweler tudalen 17) a'n staff; ac rydym yn ystyried polisiau allweddol yng Nghymru fel Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae gan ymchwil rôl bwysig yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ein helpu ni i nodi'r prif heriau yr ydym yn eu hwynebu fel poblogaeth, ac archwilio ymagweddau i oresgyn y rhwystrau hyn. Gall y dystiolaeth yr ydym yn ei chael o ymchwil ein helpu ni i wneud penderfyniadau

yng hylch ble a'r ffordd orau i fuddsoddi i gefnogi iechyd y boblogaeth.

Cyflwynir enghreifftiau o'n huchafbwyntiau ymchwil diweddar yn y trosolwg hwn. Ymchwil a wnaed mewn cydweithrediad ag ystod o bartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol o'r heddlu, cymdeithasau tai, ysgolion a charchardai - yn ogystal â phrifysgolion a sefydliadau eraill y GIG. Wrth i ni edrych tuag at 2019 a thu hwnt, rydym yn datblygu'r llwyddiannau hyn, a thrwy Ganolfan Gydwethredol newydd Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, yn datblygu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer iechyd y boblogaeth yng Nghymru.



Y flwyddyn mewn rhifau

20
o brosiectau
ymchwil
gweithredol
mewn unrhyw fis



£968,665
o incwm allanol
yn dod i mewn i
Iechyd Cyhoeddus
Cymru i gefnogi
ymchwil 2017/18



2
Gymrawd
Gwobr Amser
Ymchwil Clinigol
newydd



77
o gyhoeddiadau
academaidd
gan staff
Iechyd Cyhoeddus
Cymru



Sicrhau
£6.8m
o gyllid
trwy gais i
Gronfa
Trawsnewid
yr Heddlu



Gofynnwyd i
1001
o drigolion Cymru
am eu safbwyntiau
ar ystod o faterion
Iechyd y cyhoedd fel rhan
o brosiect Cadw'n Iach
yng Nghymru



Ymchwil gydag effaith

Mae ein hymchwil yn datblygu tystiolaeth a gwybodaeth, sy'n ein helpu ni i ddeall sut i wella iechyd a lles poblogaeth Cymru.

Mae'r astudiaethau canlynol yn amlygu sut mae ymchwil ddiweddar yn ein helpu ni i gyflawni'r uchelgais hwn.






Ymyrraeth Gynnar a Gweithredu Cadarnhaol Prydlon: Torri'r Cylch Troseddu o Un Genhedlaeth i'r Llall

Janine Roderick¹, Emma Barton¹, Kat Ford² a Michelle McManus¹


- ¹ Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ² Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor




Janine Roderick



Emma Barton



Kat Ford



Michelle McManus

Cynnydd o **30%** yn y galw ar Heddlu De Cymru (SWP) yn ymwneud â phryderon am les a diogelwch y cyhoedd (rhwng 2009 a 2015)

Mae **89%** o gyswllt SWP gyda'r cyhoedd yn ymwneud â materion cymhleth lles, diogelwch y cyhoedd a bregusrwydd


Arweiniodd **3.2%** o bryderon diogelu plant a **4.2%** o bryderon diogelu oedolion a atgyfeiriwyd i bartner statudol gan SWP at weithredu pellach

Beth oedd yr her?

Mae hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu i gynyddu ymwybyddiaeth o fregusrwydd, trawma a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) ar draws SWP a rhai asiantaethau partner. I gydnabod bod y sectorau Addysg a Thai mewn sefyllfa unigryw i adnabod a chefnogi unigolion sy'n agored i niwed, roedd angen ymagwedd aml-asiantaeth ehangach tuag at fregusrwydd. Roedd gan hyn y potensial i nodi cyfleoedd ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a theuluoedd sy'n agored i niwed yn dilyn cyswllt yr heddlu.

Beth gafodd ei wneud?

Gan ddatblygu'r hyn a ddysgwyd o ymchwil flaenorol gyda SWP, addaswyd yr hyfforddiant i dai ac ysgolion. Cyflwynwyd hyfforddiant i 93 o swyddogion tai ar draws De Cymru a 95 o staff ysgol o dair ysgol gynradd. Aseswyd yr effaith trwy archwilio ymagweddau yn ymwneud â gofal sy'n wybodus am drawma cyn ac ar ôl hyfforddiant. Archwiliodd gwerthusiad yr hyfforddiant p'un a wnaeth cymryd rhan gynyddu ymwybyddiaeth o ACE neu beidio ac archwiliodd yr effaith ar gymorth ymyrraeth gynnar ar draws y tri sector. Dadansoddwyd atgyfeiriadau diogelu'r Heddlu hefyd i nodi unrhyw newid yn y galw a chofnodi ACE.





Beth oedd yr effaith?

Mae gan **BAWB** rôl i'w chwarae yn **deall** ac **ymateb** i fregusrwydd

- **Hyfforddiant:**
 - mwy o ymwybyddiaeth a mwy o hyder gan staff i ymateb i fregusrwydd ar draws pob sector;
 - dealltwriaeth well o gyfrifoldebau a throthwyon diogelu a bregusrwydd gan asiantaethau partner.
- **Prosesau pilot newydd:**
 - arweiniodd prosesau rhannu gwybodaeth wedi eu symleiddio at gyfathrebu cynyddol a pherthnasol rhwng partneriaid;
 - mwy o ymgysylltu â phlant a theuluoedd trwy blismona cymdogaeth gwell.

Angen cynyddol i **ddatblygu cadernid** a **chydweithio** gyda **phartneriaid lleol** a **chymunedau ehangach**

Defnyddiwyd ein canfyddiadau i lunio'r rhaglen genedlaethol i gefnogi plismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru, gan ddatblygu cadernid cymunedol gan ddefnyddio ymyrraeth gynnar ac annog ymagwedd ataliol tuag at ddeall bregusrwydd gyda'r nod o leihau niwed a throseddu. Arweiniodd y gwaith hwn at y rhaglen Gweithredu'n Gynnar gyda'n Gilyddⁱ, a lansiwyd yn 2018, sydd yn ceisio datblygu **'ymagwedd gydweithredol tuag at blismona pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru: Datblygu ymagwedd aml-asiantaeth sy'n wybodus am ACE ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yr achos sylfaenol'**.

ⁱ Mae'r partneriaid yn y rhaglen hon yn cynnwys pedwar comisiynydd yr heddlu a throseddu a'r pedwar prif gwinstabl ar gyfer De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed-Powys a Gwent; y Cwmni Adsefydlu Cymunedol; Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru; Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlys Ei Mawrhydi (Cymru); Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru.

Cefnogi ein blaenoriaethau

Dylanwadu ar benderfyniadau ehangach iechyd

ASTUDIAETH ACHOS

Atal Trais, Hybu Heddwch: Pecyn Cymorth Polisi ar gyfer Atal Trais Rhyngpersonol, ar y Cyd ac Eithafol

Katie Hardcastle¹, Mark Bellis¹, Karen Hughes¹, Sara Wood¹ a Joanna Nurse²

¹ Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

² Uned Iechyd ac Addysg, Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad, DU



Katie Hardcastle



Mark Bellis



Karen Hughes




Sara Wood

Yn 2017, mabwysiadodd y Gymanwlad thema datblygu heddwch a gofynnwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrannu at y dystiolaeth bresennol ar atal trais ar draws y byd. Adolygwyd cyhoeddiadau allweddol i ddeall sut y gellid cymhwyso ymagwedd iechyd y cyhoedd tuag at drais rhyngpersonol a'i ymestyn i ddatblygu ein dealltwriaeth o drais eithafol. Defnyddiwyd ymagwedd newydd gan ystyried ysgogwyr byd-eang trais a ffactorau risg a rennir ar draws y mathau gwahanol o drais hefyd. Helpodd arweinwyr iechyd a chynrychiolwyr gweinidogaethol ar draws y Gymanwlad i nodi enghreifftiau o weithredu'r rhaglenni neu'r ymagweddau gwahanol tuag at atal trais yn effeithiol, gyda ffocws penodol ar wledydd incwm isel a chanolig.



Rhannodd Mark Bellis y canfyddiadau a'r argymhellion yn ystod cyfarfod Gweinidogion Iechyd y Cenedloedd Unedig ar atal trais rhyngpersonol, ar y cyd ac eithafol. Mynychodd dros 200 o uwch swyddogion ac arsyllwyr o 38 o wledydd y digwyddiad, yn cynnwys 27 o weinidogion iechyd.

Bydd yr **adroddiad** yn helpu Penaethiaid y Llywodraeth a gweinidogion eraill i lywio datblygiad cynllun gweithredu ar drais y Gymanwlad a chefnogi strategaethau atal trais cenedlaethol. Yn ogystal, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda Chyfadran Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ymateb iechyd y cyhoedd tuag at atal radicleiddio'r DU.





Prosiect Llesiant mewn Addysg Uwchradd (WISE) – Gwella Cymorth a Hyfforddiant Iechyd Meddwl ar gyfer Athrawon Ysgol Uwchradd

The WISE Project
Wellbeing in Secondary Education



Marie Evans¹

¹ Cyfarwyddiaeth Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwahoddwyd **24 o ysgolion**

o Gymru a Lloegr i gymryd rhan yn yr astudiaeth

Gwahoddwyd **1,320 o athrawon**

i fod yn rhan o'r astudiaeth, gydag ysgolion yn cael eu dyrannu ar hap i'r grŵp ymyrraeth neu reoli

Beth oedd yr her?

Mae astudiaethau wedi dangos bod athrawon yn nodi diffyg hyfforddiant i gefnogi iechyd emosiynol myfyrwyr a'u lles eu hunain, er gwaethaf tystiolaeth eu bod mewn perygl cynyddol parhaus o anhwylderau iechyd meddwl o'i gymharu â galwedigaethau eraill. Gall athrawon sydd yn gweithio gyda lefelau uwch o straen a thralod yn barhaus arwain at broblemau iechyd meddwl tymor hwy, perfformiad gwael yn y gwaith, absenoldeb salwch, ac ymddedioliad sydd yn gysylltiedig ag iechyd. Dim ond rhai astudiaethau sydd wedi cyflwyno hyfforddiant i athrawon yn cefnogi myfyrwyr, ac nid oes unrhyw un hyd yma wedi cynnwys ffocws ar wella iechyd meddwl athrawon.

Beth gafodd ei wneud?

Yn ystod astudiaeth dwy flynedd, cafodd 24 o ysgolion eu recriwtio. Y prif amcan oedd gwerthuso effeithiolrwydd cymorth i gymheiriaid ar gyfer athrawon ysgol uwchradd, a hyfforddiant i athrawon mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl. Mesurwyd lles meddwl a phresenoldeb athrawon a myfyrwyr yn ystod yr astudiaeth, a'i gymharu ag ysgolion sydd yn cyflwyno ymarfer arferol. Yn ogystal, edrychodd yr astudiaeth ar effeithiolrwydd cost yr hyfforddiant. Ariannwyd y gwaith gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR) fel rhan o'u rhaglen Ymchwil Iechyd y Cyhoedd.



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Mae'r astudiaeth hon wedi ei datblygu o amgylch cynllun peilot gan Brifysgol Bryste, Prifysgol Caerwysg ac Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain, yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae tystiolaeth o'r astudiaeth beilot yn dangos y bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth sy'n mynychu'r hyfforddiant yn datblygu mwy o ymwybyddiaeth o'u hanghenion iechyd meddwl eu hunain, a byddant yn teimlo'n fwy hyderus yn cefnogi pobl eraill. Os gwelir bod yr ymyrraeth yn effeithiol, bydd dogfen ganllaw ar gyfer ysgolion yn cael ei chyhoeddi. Bydd canlyniadau'r astudiaeth ar gael yn 2019.



Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Chadernid

Karen Hughes¹, Mark Bellis¹,
Kat Ford² a Lucia Homolova¹

¹ Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

² Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor



Karen Hughes



Mark Bellis



Kat Ford



Lucia Homolova

Gofynnwyd i **ryw 2,500 o oedolion yng Nghymru**

am eu profiad o **ACE** cyn iddynt gyrraedd 18 oed,

ymddygiad yn ymwneud ag iechyd, a mynediad i adnoddau cadernid

Roedd oedolion a ddiodeffodd bedwar ACE neu fwy wrth dyfu i fyny...

3x yn fwy tebygol

o nodi eu bod ar hyn o bryd yn cael triniaeth am salwch meddwl

6x yn fwy tebygol

o nodi eu bod wedi cael triniaeth am salwch meddwl

9x gwaith yn fwy tebygol

o nodi eu bod wedi ystyried hunanladdiad neu wedi hunan-niweidio

Beth oedd yr her?

Nododd arolwg ACE cyntaf Cymru yn 2015 berthynas gref rhwng tralod yn ystod plentyndod ac iechyd gwael trwy gydol eu bywyd. Fodd bynnag, canfu hefyd fod llawer o bobl a ddiodeffodd ACE wedi llwyddo i osgoi eu heffeithiau niweidiol ar iechyd. Gelwir y gallu i ymdrin yn llwyddiannus ag anawsterau fel y rheiny a achoswyd gan ACE yn gadernid. Mae cefnogi datblygiad cadernid mewn plant yn flaenoriaeth allweddol ond eto nid oes llawer yn hysbys am y ffordd y caiff cadernid ei ddatblygu.

Beth gafodd ei wneud?

Yn 2017, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ail arolwg ACE Cymru i edrych ar yr hyn a allai helpu i ddatblygu cadernid. Roedd yr arolwg o gartrefi yn cynnwys tua 2,500 o oedolion Cymraeg neu Saesneg eu hiaith. Gofynnwyd i bobl am eu profiadau o ACE cyn 18 oed, ymddygiad yn ymwneud ag iechyd a chwestiynau am gadernid mewn plentyndod. Roedd yr arolygon yn cynnwys graddfeydd cadernid cyffredinol mewn plentyndod a phan yn oedolion a gofynnwyd i'r cyfranogwyr am berthynas ag oedolion dibynadwy yn ystod plentyndod, cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden, diwylliant a thraddodiadau cymunedol, diogelwch ariannol ac amgyffrediad o gefnogaeth gwasanaethau.

Beth oedd y canlyniad?

Canfu **adroddiad cyntaf** yr arolwg gysylltiadau cryf rhwng ACE a salwch meddwl. Roedd gan unigolion oedd wedi diodeff ACE lai o gadernid yn ystod plentyndod a phan yn oedolion. Fodd bynnag, roedd gan y rheiny a nododd fwy o gadernid lefelau salwch meddwl is. Roedd lefelau uchel o gadernid yn gysylltiedig â ffactorau fel cael perthynas ag oedolyn dibynadwy yn ystod plentyndod, cyfranogiad mewn chwaraeon, ymgysylltu cymunedol a mwy o sicrwydd ariannol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar yn **BMC Public Health**.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth wedi cael eu hymgorffori mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE a roddir i sefydliadau ar draws Cymru. Maent hefyd yn cefnogi datblygiad gwaith gyda Chwaraeon Cymru a sefydliadau chwaraeon eraill i gynyddu ymwybyddiaeth o ACE ac archwilio'r ffordd y gellir cryfhau potensial chwaraeon i ddatblygu cadernid yng Nghymru.



Cefnogi ein blaenoriaethau

Hyrwyddo
ymddygiad
iach

ASTUDIAETH ACHOS

A yw Emosiynau'n ymwneud ag Yfed Alcohol yn Gwahaniaethu yn ôl y Math o Alcohol? Arolwg Trawstoriadol Rhyngwladol o Emosiynau sy'n Gysylltiedig ag Yfed Alcohol a'r Dylanwad ar y Dewis o Ddiodydd mewn Lleoliadau Gwahanol

Kathryn Ashton¹, Mark Bellis¹, Alisha Davies¹,
Karen Hughes¹ ac Adam Winstock²

¹ Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu
Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

² Sefydliad Seiciatreg, Seicoleg a Niwrowyddoniaeth,
Coleg y Brenin, Llundain



Kathryn
Ashton



Mark
Bellis



Alisha
Davies



Karen
Hughes



Adam
Winstock

Mae camddefnyddio alcohol yn bryder iechyd rhyngwladol. Fodd bynnag, nid oes llawer o sylw wedi cael ei roi i'r emosiynau uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag yfed mathau gwahanol o alcohol. Gall deall pam y mae pobl yn dewis yfed mathau gwahanol o ddiodydd ac a yw diodydd gwahanol yn achosi emosiynau gwahanol helpu i lywio ymyriadau iechyd y cyhoedd mwy effeithiol.

Yn 2017, defnyddiwyd data o'r Arolwg Cyffuriau Byd-eang (GDS) manteisgar, trawstoriadol, rhyngwladol i ddadansoddi pa fathau o ddiodydd oedd yn gysylltiedig ag emosiynau gwahanol ymysg defnyddwyr alcohol o 21 o wledydd. Archwiliodd yr arolwg hefyd a oedd emosiynau sy'n gysylltiedig â ddiodydd gwahanol yn dylanwadu ar y dewis o ddiodydd mewn lleoliadau gwahanol.

Nododd y canlyniadau bod amrywiaeth yn y mathau o emosiynau y mae unigolion yn eu profi o ddiodydd alcoholig, gyda gwirodydd yn cael eu cysylltu amlaf â newidiadau emosiynol o bob math. Roedd lefel dibyniaeth alcohol yr ymatebwyr yn gysylltiedig â theimlo pob emosiwn, gyda'r tebygolrwydd o ymosoddedd yn sylweddol uwch ymysg yfwyr a allai fod yn ddibynnol o'u cymharu ag yfwyr lefel isel.

Mae angen deall yr emosiynau sy'n gysylltiedig â mathau gwahanol o ddiodydd alcoholig er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a rhoi mewnwelediad o'r emosiynau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau o ddiodydd.




Yr astudiaeth, a gyhoeddwyd yn y [BMJ Open](#), yw'r 4ydd erthygl a ddarllenwyd fwyaf ar wefan BMJ Open (Ebrill 2018). Fe wnaeth y papur ennyn diddordeb y [cyfryngau rhyngwladol](#) gydag ychydig dros 100 o ffynonellau newyddion yn cynnwys yr astudiaeth a thros 200 o ddefnyddwyr Twitter yn rhannu'r canlyniadau.

Cefnogi ein blaenoriaethau

Sicrhau dyfodol iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf

ASTUDIAETH ACHOS

Ai mwg heb dân yw'r cyfan? Amgyffrediad plant ysgolion cynradd Cymru o e-sigaréts



Tim Prifysgol John Moores Lerpwl

Lorna Porcellato¹, Kim Ross-Houle¹, Zara Quigg¹, Jane Harris¹, Charlotte Bigland¹, Rebecca Bates¹, Hannah Timpson¹, Ivan Gee¹, Julie Bishop², Ashley Gould² ac Alisha Davies³

1 Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl
2 Is-adran Gwella Iechyd, Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru
3 Y Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru



Julie Bishop



Ashley Gould



Alisha Davies

Cymerodd 8 o ysgolion cynradd ar draws Cymru ran yn yr astudiaeth

Cwblhaodd 498 o blant (7-11 oed) holiadur ar ymwybyddiaeth o e-sigaréts, anweddu a smygu

Roedd tua 99% o blant o'r farn ei fod yn amhriodol i blant smygu e-sigaréts neu dybaco

Mae poblogrwydd e- sigaréts wedi codi pryderon y gallant weithredu fel llwybr tuag at smygu tybaco i blant. Mae ymchwil bresennol yn canolbwyntio'n helaeth ar y glasoed ac oedolion ifanc. Yng ngoleuni'r dylanwad sy'n cael ei gydnabod ar y blynyddoedd cynnar a ffurfio arferion, mae angen dealltwriaeth well o'r hyn y mae plant yn ei feddwl am e- sigaréts.

yn hŷn. Roedd yr holl blant bron yn meddwl bod defnyddio e- sigaréts (98.8%) a smygu sigaréts tybaco (99.2%) yn amhriodol i blant eu hoedran nhw. Roedd hanner yn credu ei fod yn iawn i oedolion ddefnyddio e- sigaréts (50%) neu sigaréts tybaco (46.2%). Bydd deall safbwyntiau plant am e- sigaréts yn helpu i ddatblygu ymyriadau hyb iechyd effeithiol sy'n amlygu'r peryglon posibl ac atal ymgymeriad.

Comisiynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Brifysgol John Moores Lerpwl i gynnal astudiaeth i ymwybyddiaeth plant ysgol gynradd o e- sigaréts, eu credoau am anweddu a smygu a'u dealltwriaeth o'r peryglon. Dewiswyd wyth ysgol gynradd ar draws Cymru. Cwblhaodd 498 o blant (7-11 oed) lyfryn oedd yn cael ei weinyddu yn y dosbarth yn cynnwys ymarfer tynnu llun ac ysgrifennu a holiadur. Yn ogystal, cymerodd 96 o blant ran mewn 24 o drafodaethau grŵp.

Roedd yr holl blant bron yn ymwybodol o e- sigaréts ac yn gallu gwahaniaethu rhwng sigaréts electronig a thybaco. Nid oedd gan y plant lawer o fwriad o ddefnyddio e- sigaréts na sigaréts tybaco pan oeddent



Cefnogi ein blaenoriaethau

Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd

Probiotig a fitamin D i leihau heintiau ymysg defnyddwyr gwasanaethau gofal yn y cartref (PRINCESS)

Robin Howe¹ a Mandy Wootton¹¹Gwasanaethau Microbiolog, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

72% o drigolion cartrefi gofal heb y gallu meddyliol i gydsynio dros eu hunain ac maent yn fwy agored i heintiau

Bydd samplau a gymerir yn ystod y llinell sylfaen, 3, 6 a 12 mis yn cael eu hanfon i uned Cemotherapi Gwrthficrobaidd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cael eu profi am *C. difficile*, organebau ag Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a rhywogaethau *Candida*

Beth oedd yr her?

Rhagnodir llawer mwy o wrthfotigau i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal na'r boblogaeth yn gyffredinol oherwydd y nifer uwch o heintiau sydd ganddynt, byw'n agos at ei gilydd, imiwnedd gwannach a chyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli. Nid oes llawer ar wahân i frechu a dulliau hylendid yn atal heintiau ymysg trigolion cartrefi gofal. Mae astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan y tîm hwn ([astudiaeth PAAD](#)) wedi dangos bod gan 72% o drigolion cartrefi gofal ddiffyg gallu meddyliol i gydsynio eu hunain. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod y rheiny â diffyg gallu meddyliol yn debygol o fod yn fwy eiddil ac yn fwy agored i heintiau. Felly, dyluniwyd astudiaeth ymchwil i archwilio a yw cleifion cartrefi gofal, yn cynnwys y rheiny â diffyg gallu meddyliol a'r rheiny sydd fwyaf eiddil, yn profi buddion iechyd a llai o heintiau wrth gymryd atchwanegiad probiotig dyddiol.

Beth sy'n cael ei wneud?

Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys cydweithredu rhwng ymchwilwyr clinigol ac academiaidd o Uned Treialon De Ddwyrain Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol Southampton ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod yr astudiaeth yw cymharu probotigau â phlasebos ymysg cleifion cartrefi gofal, wedi eu recriwtio ar draws y DU. Cymerir samplau o garthion a phoer oddi wrth gleifion yn ystod y llinell sylfaen, 3, 6 a 12 mis a'u



hanfon i uned Cemotherapi Gwrthficrobaidd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff y samplau eu prosesu ar gyfer *C. difficile*, organebau Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a rhywogaethau *Candida*.

Beth yw'r canlyniad a ddisgwylir?

Bydd y treial hwn yn rhoi tystiolaeth ynghylch a yw ymyrraeth ddiogel a hygyrch yn effeithiol yn atal heintiau, y defnydd o wrthfotigau ac ymwrthedd gwrthfotig ymysg trigolion cartrefi gofal. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio i effeithiau dosys dyddiol o brobiotigau ar y defnydd o wrthfotigau. Bydd canlyniadau eraill yn archwilio heintiau, lles, defnydd o wasanaethau, marwolaethau a chanlyniadau microbiolog.

Bydd y canfyddiadau yn helpu i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ynghylch a yw cymryd cynnyrch probiotig yn hybu iechyd a lles ymysg trigolion cartrefi gofal.



Asesu Mynychder Hepatitis Feirysol ymysg Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n Byw yng Nghymru, DU, Gan Ddefnyddio 'Onomap', Pecyn Meddalwedd Dosbarthu Ethnigrwydd yn Seiliedig ar Enw

Daniel Thomas¹ ac Amy Phillips¹

¹ Is-adran Diogelu Iechyd, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru



Daniel Thomas

Yn 2014/15, cafwyd
2,710 o hysbysiadau
o hepatitis yng Nghymru

Beth oedd yr her?

Er bod ethnigrwydd yn un o'r ffactorau niferus sydd yn pennu iechyd pobl, nid yw'n cael ei gofnodi'n dda mewn setiau data clinigol. Fe wnaethom ymchwilio i'r defnydd o 'Onomap', pecyn meddalwedd dosbarthu ethnigrwydd yn seiliedig ar enw, a ddatblygwyd gan yr Adran Ddaearyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Llundain, i fesur anghydraddoldebau ethnig o ran mynychder clefydau trosglwyddadwy yng Nghymru.

Cafodd **6,640 o enwau cleifion** eu profi gan ddefnyddio Onomap, offeryn meddalwedd dosbarthu yn seiliedig ar enw, i archwilio cywirdeb rhagfynegi ethnigrwydd

Beth gafodd ei wneud?

Neilltuwyd ethnigrwydd i hysbysiadau clinigol o A, B, C ac E ar gyfer profion a gynhaliwyd gan labordai yng Nghymru yn 2014 a 2015. Cafodd cywirdeb Onomap ei fesur gan ddefnyddio tri set ddata yn cynnwys enwau cleifion ac ethnigrwydd wedi ei hunan-adrodd. Roedd hwn yn brosiect cydweithredol yn cynnwys Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy a Microbiolog Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ysgol y Gwyddorau Iechyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a Narodowy Instytut Zdrowia Publicznego, Gwlad Pwyl.

Beth oedd y canlyniad?

Roedd hysbysiadau o hepatitis fwyaf cyffredin ymysg 'Prydeinwyr Gwyn', ond roedd y cyfraddau yn sylweddol uwch ymysg grwpiau ethnig eraill. Yn gyffredinol, roedd y cyfraddau profi ar eu huchaf ymysg y grwpiau ethnig â'r cyfraddau hysbysu uchaf, er yr ymddengys bod diffyg profion am hepatitis B yn berthynol i'r risg ymysg y boblogaeth Tsieineaidd sy'n byw yng Nghymru. Perfformiodd Onomap waethaf ar gyfer grwpiau 'Du'. Mae Onomap felly yn offeryn defnyddiol ar gyfer monitro anghydraddoldebau ethnig mewn clefydau trosglwyddadwy, er y dylid ystyried gwahaniaethau systematig mewn sensitifrwydd wrth ddehongli'r canfyddiadau. Gall mesur amrywiadau ethnig o ran profi yn ôl oed, ardal breswyllo, ac amddifadedd cymdeithasol roi mwy o wybodaeth am y ffordd orau o dargedu gwasanaethau.



Cefnogi ein blaenoriaethau

Cefnogi gwaith i ddatblygu **system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal** ac ymyrryd yn gynnar

Presgripsiynau Deintyddol yng Nghymru


Anup Karki¹, Raylene Roper¹, Ivor Chestnutt² ac Anwen Cope²

¹ Is-adran Gofal Sylfaenol, Is-adran Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru

² Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd




Anup Karki



Raylene Roper



Ivor Chestnutt



Anwen Cope

Roedd **9%** o'r holl **wrthfriotigau** ar bresgripsiwn yng Nghymru gan bractisau deintyddol

Arweiniodd ymyriadau lluosog at **ostyngiad o 22%** mewn presgripsiynau gwrthfriotig gan ddeintyddion yng Nghymru

Beth oedd yr her?

Mae gwaith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dangos bod 9% o'r holl wrthfriotigau ar bresgripsiwn yng Nghymru gan bractisau deintyddol. Mae ymyriadau diweddar wedi arwain at ostyngiad o 22% mewn presgripsiynau gwrthfriotig gan ddeintyddion yng Nghymru. Fodd bynnag, gall fod yn bosibl gwella ymhellach lefel presgripsiynau gwrthfriotig mewn deintyddiaeth gan fod data archwiliad yn awgrymu bod llawer o wrthfriotigau yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn heb gyfiawnhad clinigol amlwg. Archwiliodd ein hastudiaeth ddichonoldeb cysylltu presgripsiynau deintyddol â chronfeydd data Gwasanaethau Deintyddol, a rhoi adborth ar broffiliau presgripsiynau gwrthfriotig i ymarferwyr a phractisau deintyddol yng Nghymru.



Beth gafodd ei wneud?

Mewn cydweithrediad ag Ysgol Ddeintyddol Prifysgol Caerdydd, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Gwasanaethau Deintyddol a Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru, archwiliwyd dichonoldeb creu proffiliau presgripsiynau gwrthfriotigau unigol deintyddion yng Nghymru. Rhoddodd cysylltu a dadansoddi data o'r ddwy gronfa ddata (y Gronfa Ddata Presgripsiynau Deintyddol a'r Gronfa Ddata Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) gyfle i ni archwilio ffyrdd o greu proffiliau presgripsiynau ystyrllon i ddeintyddion yng Nghymru.

Beth oedd y canlyniad?

Mae'r ymchwil yn dangos gyda rhai gwelliannau yn y systemau casglu data presennol, ei bod yn bosibl rhoi adborth personol cywir ar gyfer ymarferwyr a phractisau deintyddol y GIG yng Nghymru.

Yn dilyn y gwaith hwn, cynhaliwyd trafodaethau gyda Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru i ddeall goblygiadau gwneud gwelliannau i gronfeydd data presgripsiynau deintyddol.

Cyflwynwyd y gwaith ymchwil hwn gan Anwen Cope yng nghynhadledd Cymdeithas Deintyddiaeth Gymunedol Prydain yn 2017 lle'r enillodd Wobr Poster Roger Anderson. Ymddangosodd erthygl newyddion yn y rhifyn cyntaf o gylchgrawn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru [@YmchwilCymru](https://twitter.com/YmchwilCymru) hefyd.



Cefnogi ein blaenoriaethau
Adeiladu
a symud
gwybodaeth
a sgiliau wella
iechyd a llesiant
ar draws Cymru

Goroesi cancer yr ysgyfaint yng Nghymru

Dyfed Wyn Huws¹, Rebecca Thomas¹, Ceri White¹ a Ciaran Slyne¹

¹ Gwybodaeth Iechyd, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Lles, Iechyd Cyhoeddus Cymru




Dyfed Wyn Huws



Rebecca Thomas



Ceri White



Ciaran Slyne

Ceir diagnosis o
2,400 o achosion o ganser yr ysgyfaint
yng Nghymru bob blwyddyn

Mae **tua 25% o'r**
o'r holl achosion o ganser yr ysgyfaint sy'n
cael diagnosis yng Nghymru yn rhai cyfnod
cynnar ac felly â'r posibilrwydd o'u gwella

Beth oedd yr her?

Mae tua 2,400 o achosion o ganser yr ysgyfaint yn cael diagnosis yng Nghymru bob blwyddyn, gan roi cyfrif am fwy o farwolaethau yng Nghymru na chanser y fron a chanser y coluddyn gyda'i gilydd. Mae astudiaethau rhyngwladol wedi dangos bod gan Gymru gyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint sydd yn is na'r rhan fwyaf o wledydd eraill incwm isel a llawer o wledydd incwm canolig. Ceir graddiant serth hefyd mewn achosion o ganser yr ysgyfaint rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru (mae tua chwarter yr holl achosion yn cael diagnosis yn ystod y cyfnodau cynharach yng Nghymru). Mae cyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint cyfnod cynnar ar ei uchaf ymysg ardaloedd mwy cefnog Cymru. Fodd bynnag, ni ddeallir llawer am yr hyn sy'n dylanwadu ar ffactorau goroesi, na'r graddau y mae'r ffactorau hynny'n esbonio amrywiadau yng nghyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint yng Nghymru.

Beth gafodd ei wneud?

Cynhaliwyd adolygiad gyda Phrifysgol Bangor yn edrych ar nifer o ffynonellau data i nodi'r ffactorau y gellir eu haddasu sy'n gysylltiedig â goroesi cancer yr ysgyfaint. Nod y prosiect oedd:

- nodi ffactorau a allai ddylanwadu ar yr amrywiad yng nghyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint yng Nghymru
- nodi a yw'r ffactorau hynny'n cael eu mesur naill ai yng nghofrestrfa genedlaethol Cymru, ar unrhyw gronfa ddata arall sy'n benodol i ganser neu ym manc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL).
- pennu cyflawnder y ffactorau hyn ym mhob ffynhonnell ddata.

Beth oedd y canlyniad?

Roedd sawl un o'r setiau data a adolygwyd yn cynnwys data digonol ar sawl ffactor pwysig sydd yn dylanwadu ar oesoedd cancer yr ysgyfaint yng Nghymru. Nodwyd sawl categori o ffactorau y gellir eu haddasu a allai ddylanwadu ar oesoedd cancer yr ysgyfaint e.e. mynegai mas y corff, rhoi'r gorau i smygu ar ôl cael diagnosis, ansawdd bywyd cyn triniaeth, yswiriant meddygol, a chyfyngau diagnostig. Y cyfnod nesaf yw cynnal dadansoddiad aml-amryweb gan ddefnyddio data arferol i feintioli dosbarthiad a graddau'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr amrywiad yng nghyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint yng Nghymru.



Cefnogi ein blaenoriaethau

Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau wella iechyd a llesiant ar draws Cymru

ASTUDIAETH ACHOS

Cadw'n Iach yng Nghymru – Arolwg Cadw'n Iach yng Nghymru

Catherine Sharp¹, Karen Hughes² a Mark Bellis²

¹ Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor

² Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru



Catherine Sharp




Karen Hughes



Mark Bellis

Yn 2017, cyfleodd Iechyd Cyhoeddus Cymru safbwyntiau rhanddeiliaid a staff er mwyn llywio datblygiad eu strategaeth hirdymor; fel rhan o hyn, roedd y sefydliad eisiau gofyn i'r cyhoedd am eu safbwyntiau.



Dyluniwyd yr arolwg 'Cadw'n Iach yng Nghymru' i ganfod beth oedd y cyhoedd yng Nghymru'n credu yw'r cyfranwyr mwyaf tuag at iechyd a lles gwael, a pha gamau y byddent yn hoffi i ni eu cymryd i ymdrin â'r materion hyn. Roedd y prosiect yn cynnwys arolwg wyneb yn wyneb yn y cartref ac arolwg ar-lein oedd yn agored i holl drigolion Cymru oedd yn 16 oed ac yn hŷn. Fe wnaethom weithio gyda Phrifysgol Bangor i gynnal yr arolwg a dod yn **un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i ofyn i'r cyhoedd pa fesurau sydd yn angenrheidiol iddynt fyw bywydau iachach.**

Amlygodd y cyhoedd smygu, cam-drin cyffuriau, camddefnyddio alcohol, anweithgarwch corfforol ac arferion bwyta afiach fel y pum prif gyfrannwr at iechyd a lles gwael yng Nghymru, er bod materion eraill, fel ynysu cymdeithasol, rhianta gwael ac anawsterau yn cael mynediad i ofal iechyd wedi cael graddau uchel hefyd.

Dangosodd yr ymatebion gan 1,001 o drigolion Cymru ymrwymiad i fodel ataliol iechyd y cyhoedd. Wrth gael y dewis i gytuno, anghytuno neu ddim un o'r ddau, **cytunodd 53% y dylai'r GIG wario llai ar drin salwch a mwy yn ei atal (anghytunodd 15%)**. Roedd canlyniadau pellach yn cynnwys:

- 88% yn cytuno y dylai ysgolion ddysgu mwy i blant am fyw bywyd iach; anghytunodd 5%.
- 76% yn cytuno y dylai cyflogwyr wneud mwy i ofalu am iechyd eu gweithwyr; anghytunodd 8%.
- 76% yn cytuno eu bod yn cefnogi terfynau cyflymder o 20 milltir yr awr lle byddant yn lleihau anafiadau traffig y ffordd; anghytunodd 12%.

I ddarllen yr adroddiad llawn, ewch i www.publichealthwales.org/staywellinwales.

Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ennill Gwobrau Amser Ymchwil Clinigol

Roedd Lim Jones, Microbiolegydd Meddygol Ymgynghorol, a Sarah Jones, Ymgynghorydd Diogelu Iechyd yr Amgylchedd, yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am grant ariannu Gwobr **Amser Ymchwil Clinigol** Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Bydd y cyllid hwn yn rhoi amser ymchwil wedi ei ddiogelu iddynt i ddatblygu eu diddordebau ymchwil yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac er budd y boblogaeth yn gyffredinol.

Dywedodd Lim Jones:

"Mae heintiau bacterol ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yn her sylweddol sy'n cynyddu i ofal iechyd yng Nghymru. Mae hwn yn flaenoriaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd sicrhau amser ymchwil clinigol yn fy ngalluogi i neilltuo amser i fynd ar drywydd rhaglen academiaidd wedi ei thargedu i wella diagnosis, rheolaeth ac ataliaeth heintiau AMR. Bydd hyn mewn partneriaeth â chydweithwyr clinigol, prifysgol a diwydiant."



Dywedodd Sarah Jones:

"Mae gennyf ddi-ddordeb ymchwil hirsefydlog mewn anafiadau traffig y ffordd ac yn fwy diweddar llygredd aer a theithio egniol hefyd. Bob blwyddyn yng Nghymru, mae gwrthdrawiadau ar y ffordd yn arwain at ryw 3,000 o dderbyniadau brys a 14,000 o achosion mewn Adrannau Brys. Mae traffig y ffordd yn achosi hyd at ddwy ran o dair o lygredd aer, sydd yn achosi clefydau anadlol, problemau'r galon, strôc, dementia, canserau a phwysau isel ar enedigaeth a babanod sy'n cael eu geni cyn pryd."



"Bydd y wobr hon yn rhoi'r amser i mi ddatblygu ymchwil o ansawdd uchel mewn trafndiaeth ac iechyd, yn cynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd, ansawdd aer, sŵn a theithio egniol. Hoffwn edrych ar hyn o safbwynt polisi a chynllunio, er budd iechyd pobl yng Nghymru ac er budd i GIG Cymru."

Strategaeth Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru: gweithgareddau yn y flwyddyn ddiwethaf

Mae ein strategaeth ymchwil yn amlinellu pedwar maes blaenoriaeth allweddol

1. Dywedasom y byddem yn helpu ein staff i ddatblygu sgiliau ymchwil a dod yn brif ymchwilwyr.

Eleni:

- Fe wnaethom gefnogi ceisiadau i'r Gwobrau Amser Ymchwil Clinigol cystadleuol, rhaglen a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i roi amser ymchwil wedi ei ddiogelu i staff. Yn 2017/18, cafodd dau aelod o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, Lim Jones a Sarah Jones, gyllid (£145,000).
- Datblygwyd a chomisynwyd rhaglen hyfforddiant a datblygu ar ymchwil a gwerthuso ar gyfer ein staff.

2. Dywedasom y byddem yn creu gwybodaeth trwy gefnogi cydweithrediadau cenedlaethol a darparu cyllid i ysgogi ymchwil newydd.

Eleni:

- Mae ein hymchwil ar ACE wedi cael effaith sylweddol yng Nghymru, gan arwain at fuddsoddiad o £400,000 gan Lywodraeth Cymru i Gymru Well Wales a datblygu'r Hyb Cymorth ACEⁱⁱ i fynd i'r afael ag effaith ACE.



- Derbyniodd cais cydweithredol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, y pedwar comisiynydd heddlu a throseddau a phrif gwnstablaid, ac ystod o sefydliadau cyfiawnder troseddol a sector gwirfoddol ar draws Cymru gyllid o £6.87 miliwn gan y Swyddfa Gartref am gyfnod o dair blynedd o 2017-2020.
- Mae Is-adran Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu cyllid grant bach o hyd at £10,000 i gefnogi prosiectau ymchwil newydd. Yn 2017/18, derbyniwyd chwe chais a chafodd tri eu hariannu. Yn ogystal, derbyniwyd wyth cais am y Gronfa Ymchwil a Datblygu dan arweiniad Ymarferwyr. Mae hyn yn rhoi cyllid o hyd at £40,000 i gomisiynu un prosiect mewn cydweithrediad â phartner prifysgol.

ii <https://www.aceawarewales.com/>



3. Dywedasom y byddem yn dechrau cydweithrediadau a phartneriaethau ymchwil rhyngwladol ac yn ehangu partneriaethau cydweithredol gydag academia yng Nghymru.

Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Eleni:

- Cyflawnodd cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru ddyndodiad fel Canolfan Gydwethredu WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles.
- Rydym wedi noddi nifer o Ysgoloriaethau Sgiliau Cyfnewid Gwybodaeth (KESS-2) yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac wedi cyd-gynnal myfyrwyr trwy gydol eu rhaglenni ymchwil.

Digwyddiad Arddangos Ymchwil yng Nghymru: Ymchwil gydag Effaith

Mynychodd dros 400 o gynadleddwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n sefydliadau partner ddiwyddiad 'Ymchwil yng Nghymru' Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ddydd Iau 8 Mawrth yng Nghaerdydd, neu wylïo ffrwd fyw o'r diwrnod yn #RIW2018. Roedd elfen rwydweithio gref i'r digwyddiad, a gefnogwyd gan Dîm Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda thros 30 o stondinau a phosteri gan sefydliadau partner er mwyn codi ymwybyddiaeth o feysydd gwaith a chyfleoedd gwahanol i gydweithredu. Mae cyflwyniadau, canlyniadau Mentimeter a lluniau o'r diwrnod ar gael ar [wefan y Gymuned YaD](#).

4. Dywedasom y byddem yn cyfleu ein canfyddiadau trwy gefnogi staff i gyflwyno eu hymchwil, mewn cynadleddau hefyd a chysylltu â phartneriaid academaidd.

- Mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu wedi hwyluso cynadleddau, seminarau a gweithdai yn hybu blaenoriaethau Iechyd y cyhoedd ar draws pob sector yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2018, cynhaliwyd digwyddiad Ymchwil yng Nghymru gyda sawl aelod o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cyflwyniadau llafar neu boster.
- Rydym wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tystiolaeth er mwyn derbyn adroddiadau chwarterol o'r holl gyhoeddiadau lle'r oedd staff Iechyd Cyhoeddus Cymru'n awduron.



Edrych yn ôl, edrych ymlaen

Mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu (YaD) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cymorth llywodraethu ymchwil i'w staff. Caiff yr holl brosiectau ymchwil sydd yn digwydd ar draws y sefydliad eu hadolygu gan Swyddfa YaD Iechyd Cyhoeddus Cymru, a lle bo angen, yn cael cymeradwyaeth ymchwil cyn dechrau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael cyllid craidd (bron £210,000 ar hyn o bryd) gan Is-adran YaD Llywodraeth Cymru i gefnogi ymchwil. Defnyddir hwn i gefnogi'r Swyddfa YaD ac i hybu datblygiad ymchwil newydd.

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn datblygu ein strategaeth ymchwil newydd. Rydym yn edrych ymlaen at ymgynghori'n eang gyda staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau partner i helpu i lunio ein blaenoriaethau a'n hymagwedd at ymchwil yn y dyfodol, i gefnogi ein Strategaeth Hirdymor sefydliadol parhaus. Byddwn hefyd yn ariannu astudiaethau dichonoldeb ar raddfa fach gyda'r nod o ymestyn y rhain i brosiectau o ansawdd uchel a ariennir yn allanol, sydd yn helpu i ddatblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer ymyriadau a pholisïau iechyd y cyhoedd i'r dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r weithrediaeth cydlynu ymchwil cenedlaethol, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, i gefnogi cyflwyno astudiaethau masnachol a phrosiectau ymchwil o ansawdd uchel yng Nghymru.

Yn ogystal, bydd CC WHO yn datblygu, casglu a rhannu tystiolaeth, gwybodaeth ac offer ar y ffordd orau o fuddsoddi mewn iechyd gwell, lleihau anghydraddoldebau a datblygu cymunedau cryfach a systemau cadarn yng Nghymru, Ewrop ac yn fyd-eang. Bydd yn helpu i ddatblygu ymchwil gymhwysol i lywio a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer..

Manylion cyswllt y Swyddfa YaD

PHW.Research@wales.nhs.uk

Cysylltwch...



Mark Griffiths

Rheolwr Ymchwil a
Datblygu

[Anfonwch e-bost at Mark](#)



Laura Evans

Swyddog Llywodraethu
Ymchwil a Datblygu

[Anfonwch e-bost at Laura](#)



Ceri Smith

Swyddog Gweinyddu
ac Adnoddau


[Anfonwch e-bost at Ceri](#)

Cydnabyddiaeth

Datblygwyd yr adroddiad hwn gan Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd ei gyflwynu gan Laura Evans, Mark Griffiths, a Claudine Anderson. Diolch hefyd i Alisha Davies, Mark Bellis, Michael Darke, James Bailey, Ruth Harris, Gill Richardson a'r holl staff yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi cyfrannu at y ddogfen hon. Rydym yn ddiolchgar am eu mewnbyn a'u hadborth gwerthfawr.



Diogelu Iechyd
Darparu gwybodaeth, cyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol




Microbioleg
Darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli



Gwella Iechyd
Darparu gwybodaeth, cyngor a chymryd camau gweithredu, ar draws sectorau, i hybu iechyd, atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau iechyd



Sgrinio
Darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin



Gwybodaeth Iechyd
Dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth



Iechyd Cyhoeddus Cymru yr hyn rydym yn ei wneud
Rydym yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn y meysydd canlynol:



Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol
Dylanwadu ar bolisi, cefnogi ymchwil a chyfrannu at ddatblygiad iechyd rhyngwladol



Diogelu
Darparu arbenigedd a chngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed



Gwella ansawdd y GIG a diogelwch cleifion
Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion



Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig
Cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau